OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 385 (Cy. 119)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym* | *17 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain - Caergybi (yr A5) ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mawrth 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)**;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig-

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth

ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 220 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Rhes Dolydd hyd at bwynt 828 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

**Dirymu**

**4.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2015**(3)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 15 Mawrth 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(2)** 1984 p. 27; amnewidwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) (mae'r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i'r darpariaethau arbed a throsiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20)).

**(3)** O.S. 2015/1627 (Cy. 210)